

Pan Mae E Wedi Mynd, Mae Wedi Mynd

Siopa am fwyd fel teulu

Paratoi

- Gosodwch gyllideb ar gyfer elfen o'ch siopa bwyd y mae gan eich plentyn ddiddordeb ynddi gan greu sefyllfa weledol lle gall eich plentyn wneud penderfyniad – megis prynu ffrwythau neu fyrbrydau
- Rhybudd i rieni plant sy'n troi eu trwynau at bopeth: gwnewch yn siŵr fod y dewisiadau cychwynnol i'ch plentyn yn cynnwys bwyd mae'n ei fwyta, er mwyn i'r trafodaethau lynu at arian yn hytrach na bwyd

Enghreifftiau

- Anogwch eich plentyn i 'helpu' wrth siopa bwyd ar gyfer y teulu drwy wneud dewisiadau lle mae cost yn ffactor.
- Dangoswch grwpiau o eitemau i'ch plentyn sydd yn costio'r un faint fel cyfanswm a chynigiwch un yn erbyn y llall rhwng gwahanol gynnyrch. Er enghraifft
 - Blychaid bach o lus a 5 banana neu flychaid mawr o rawnwin a 3 banana.
 - Grawnfwyd gan frand a bara cyffredin neu rawnfwyd yr archfarchnad a bagelau.
 - Gadewch i'ch plentyn ddewis gwahanol elfennau o ginio picnic gyda therfyn pris penodol
- Os ydych yn cynnal y gweithgaredd gyda mwy nag un plentyn, gadewch iddynt ddod i benderfyniad ar y cyd; os bydd hyn yn anodd, gadewch iddynt wneud dewis yr un
- Ceisiwch wneud yn siŵr fod yr eitemau'n cael eu bwyta'n raddol drwy'r wythnos a pheidiwch â gadael i'ch plentyn fwyta'r ffefrynnau i gyd yn gyntaf

Negeseuon

- Pan mae e wedi mynd, mae wedi mynd
- Rhaid i'ch plentyn fyw gyda'r dewis a wna
- Os yw eich plentyn wedi dewis eitem ar gyfer y teulu cyfan, rhaid iddo ddeall effaith y pryniant hwnnw ar aelodau eraill o'r teulu

Gwthio pethau ymhellach

Unwaith y bydd eich plentyn yn yr ysgol, gallwch newid y gweithgaredd gan ddewis pethau ar gyfer y bocs bwyd cinio am yr wythnos gyfan.

Pan Mae E Wedi Mynd, Mae Wedi Mynd

Cynllunio gweithgaredd i'r teulu

Paratoi

- Gosodwch gyllideb ar gyfer gweithgaredd teulu, er enghraifft mynd am dro i barc lleol neu fynd i'r sinema.
- Ymchwiliwch y costau ar gyfer y gwahanol ddewisiadau (efallai y gall plentyn hŷn helpu gyda chwiliadau ar-lein)
- Lluniwch restr o'r holl gostau posib i'w dangos i'ch plentyn: teithio, tocynnau mynediad, diodydd a byrbrydau, gweithgareddau ychwanegol yn yr adeilad neu'r lleoliad dan sylw

Engbreiffiau

- Cyflwynwch y wybodaeth i'ch plentyn fel cymorth iddo fedru cynllunio a phrisio ei ddiwrnod allan delfrydol.
- Os ydych yn gwneud y gweithgaredd fel teulu, caniatewch i bob plentyn fynegi beth hoffai ef wneud.
- Bydd y dewis delfrydol y tu hwnt i'r gyllideb mae'n debyg, rhowch gymorth i'ch plentyn/plant gyfrifo sut i wneud y mwyaf o'r arian sydd ar gael ac i bwysu a mesur rhwng gwahanol flaenoriaethau.
- Ar ddechrau'r gweithgaredd, atgoffwch eich plentyn/plant o'r hyn sydd wedi ei gyttuno ac ni fydd unrhyw bethau 'ychwanegol' ar gael.
- Taenwch y gwariant a gytunwyd arno drwy gydol y gweithgaredd a pheidiwch ag ildio os bydd y plant yn ceisio mynnu am ragor - efallai bydd hyn yn dipyn o her i gychwyn, ond chi fydd yn elwa yn y pen draw

Negeseuon

- Ni allwn gael popeth a ddymunwn oherwydd gall fod yn rhy ddrud
- Wrth fyw fel teulu rhaid rhannu'r arian yn deg
- Pan mae e wedi mynd, mae wedi mynd – os cytunoch i gynnig hufen iâ am 10:00am, ni fydd un arall ar gael am 3:00pm!
- Weithiau rhaid disgwyl am y pethau a ddymunwn

Gwthio pethau ymhellach

- Trafodwch a fyddai dau weithgaredd rhatatch yn ddewis gwell nag un gweithgaredd drutach
- Ceisiwch ymestyn yr ystod o weithgareddau dros gyfnod gwyliau hanner tymor

Pan Mae E Wedi Mynd, Mae Wedi Mynd

Caniatáu i'ch plant gymryd mwy o gyfrifoldeb gydag arian

Paratoi

- Gwnewch restr o'r holl bethau y gwariwch arian arno ar gyfer eich plentyn a'r holl bethau mae'n gofyn amdanynt yn rheolaidd, ynghyd â'r costau
- Gall y pethau hyn gynnwys: dillad, deunydd ymolchi, ffioedd clybiau, offer chwaraeon, bywyd cymdeithasol, ffonau symudol a'r tariff
- Penderfynwch ar gyllideb realistig ar gyfer pob maes – efallai na fydd hyn yn agos o gwbl at yr hyn y buoch yn ei wario go iawn!

Enghreifftiau

- Gadewch i'ch plentyn wybod eich bod am roi lwfans misol iddo i'w wario'n bersonol ar un o'r meysydd hyn, gan gychwyn gyda maes llai pwysig fel cymdeithasu yn hytrach nag arian i brynu dillad ysgol
- Dywedwch wrth eich plentyn nad oes raid iddo wario'r arian i gyd bob mis, nid ydych am gymryd y gweddill yn ôl – ond felly hefyd ni fyddwch yn cynnig rhagor os bydd eich plentyn heb arian o gwbl cyn diwedd y mis
- Pan fydd eich plentyn yn hyderus mewn un maes, cynyddwch y cyfrifoldeb yn raddol i gynnwys ei holl elfennau gwario erbyn iddo gyrraedd 16
- Rhowch ryddid i'ch plentyn wrth iddo benderfynu sut i wario'r arian, gan symud arian rhwng y gwahanol feysydd, ond treuliwch amser yn egluro iddo sut i ddeall goblygiadau hyn.

Negeseuon

- Rhaid gwneud dewisiadau gyda'r arian sydd ar gael
- Rhaid i chi gynllunio er mwyn sicrhau nad ydych yn brin o arian
- Wrth lwyddo i reoli arian cewch ryddid a chyfrifoldeb

Gwthio pethau ymhellach

- Rhowch gyllideb fwyd am wythnos a rhowch gymorth i'ch plentyn gynllunio bwydlen ar gyfer y teulu
- Os yw'n bosibl rhowch y cyfle i'ch plentyn ennill rhagor o arian wrth wneud tasgau ychwanegol ar gyfer y teulu
- Pan fydd eich plentyn yn ddigon hen, rhowch anogaeth iddo chwilio am swydd rhan amser fel ffordd o ennill rhagor o arian